# Polisi Anghenion Gofal Iechyd

Mae'r polisi hwn yn nodi dull gweithredu a darpariaeth Cyngor Sir y Fflint ar gyfer rheoli Anghenion Gofal Iechyd dysgwyr mewn Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint.



Tachwedd 2022

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Mae'r polisi hwn yn nodi dull gweithredu a darpariaeth Cyngor Sir y Fflint ar gyfer rheoli Anghenion Gofal Iechyd dysgwyr mewn Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint.

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi gyntaf: | Tachwedd 2017 |
| Diweddarwyd: | Tachwedd 2022 |
| Amlder adolygu | Blynyddol |
| Enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal y polisi hwn: | |
| | Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid |
| Cyfeiriad Llawn a Chod Post: | Cyngor Sir y Fflint |
| | Addysg ac Ieuenctid |
| | Neuadd y Sir |
| | Yr Wyddgrug |
| | CH7 6ZY |
| Rhif Ffôn: | 01352 704601 |
| Gwefan: | http://www.siryfflint.gov.uk |

## Fformatau Hygyrch

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a Saesneg ac mewn fformatau Microsoft Word a pdf, ffont Arial maint 12 safonol. Mae fformatau hygyrch eraill yn cynnwys fformatau print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain (BSL), hawdd ei ddarllen, sain ac electronig, ac ieithoedd eraill os gwneir cais amdanynt.

**I wneud cais am gopi o'r ddogfen hon mewn fformat hygyrch, anfonwch neges at: adminsupportservices@flintshire.gov.uk**

# 1. Egwyddorion Allweddol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymroddedig i sicrhau bod dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael cymorth priodol fel bod ganddynt fynediad llawn i addysg. Nod y Cyngor yw creu diwylliannau a chymunedau cynhwysol lle mae plant, rhieni a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn deg. Mae'r ymrwymiad i'r egwyddorion hyn o gydraddoldeb a chynhwysiant wedi'i nodi yn y Fframwaith Polisi Addysg ac Ieuenctid ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol (diwygiwyd Awst 2022).

Mae materion yn ymwneud â gofal iechyd yn effeithio ar bob dysgwr yn unigol, felly mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau bod trefniadau yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion penodol y dysgwr a'r ffordd maent yn effeithio ar ei addysg, cyrhaeddiad a llesiant. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau yn cefnogi dysgwyr yn briodol ac yn lleihau unrhyw amhariad neu rwystrau i'w haddysg. Bydd trefniadau hefyd yn ystyried unrhyw ddyletswyddau diogelu ehangach, gan geisio sicrhau ar yr un pryd y gall pob dysgwr gael mynediad at yr un cyfleoedd a'u mwynhau.

Bydd gan lawer o ddysgwyr angen gofal iechyd tymor byr ar ryw adeg. Gyda chymorth priodol, dylent allu mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o weithgareddau. Fodd bynnag, efallai bydd gan rai dysgwyr anghenion gofal iechyd sylweddol neu dymor hir sy'n effeithio ar eu gallu gwybyddol neu gorfforol, eu hymddygiad neu gyflwr emosiynol, a gall hyn olygu bod arnynt angen cymorth ychwanegol.

Bydd Cyrff Llywodraethu Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion Sir y Fflint yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ddarparu'r cwricwlwm mewn ffordd hyblyg er mwyn helpu dysgwyr i ailgysylltu â'r ysgol yn ystod cyfnodau o absenoldeb, e.e. drwy gynnig cyfle addas i astudio yn rhan amser, darpariaeth amgen gan Gyngor Sir y Fflint a threfniadau dychwelyd fesul cam. Mae'n hanfodol bod pawb yn cydweithio wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chymorth.

# 2. Gofynion Cyfreithiol

Mae gan Gyngor Sir y Fflint swyddogaethau cyffredinol mewn perthynas â darparu addysg yn yr awdurdod lleol a bydd yn gwneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas (yn yr ysgol neu fel arall) ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol na fyddent fel arall yn derbyn addysg oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu reswm arall.

I bobl ifanc (h.y. y rheini sydd dros oedran ysgol gorfodol, ond sydd o dan 18 oed), mae gan Gyngor Sir y Fflint bŵer (yn hytrach na dyletswydd) i wneud trefniadau yn yr amgylchiadau hynny (adran 19(4) Deddf Addysg 1996). Wrth benderfynu pa drefniadau i'w gwneud yn achos unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod y swyddogaethau addysg yn cael eu hymarfer gyda'r nod o ddiogelu a hybu lles plant (Deddf Addysg 2002).

Mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd o dan adran 15 Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014 i ddarparu gwasanaethau ar draws yr awdurdod gyda'r nod o gyfrannu at atal neu oedi datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth ac amryw o ddibenion cysylltiedig.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn ddeddf unigol sy'n dod â holl ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol ynghyd mewn perthynas â gwella llesiant pobl sydd arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd arnynt angen cymorth.

Nod Deddf 2014 yw sicrhau bod y gofal a chymorth a ddarperir i bobl ifanc yn cael ei gyflenwi yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymrwymedig i'r CCUHP fel y sylfaen sy'n llywio ei bolisïau ynglŷn â phlant a phobl ifanc.

O dan adran 15 Deddf 2014, mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau ataliol ar draws yr awdurdod lleol. Pwrpas y gwasanaethau hyn fyddai atal neu oedi datblygiad angen pobl am ofal a chymorth.

Rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau i hybu cydweithio rhwng gwahanol bartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn yr ardal. Caiff y trefniadau eu gwneud gyda'r nod o gyflawni'r pwyntiau a ganlyn:

- gwella llesiant plant yn Sir y Fflint
- gwella ansawdd y gofal a'r cymorth i blant a ddarperir yn Sir y Fflint
- amddiffyn plant sy'n dioddef cam-drin, esgeulustod a niwed arall neu sydd mewn perygl o'u dioddef (gweler adran 25 Deddf Plant 2004).

# 2. Gofynion Cyfreithiol *(continued...)*

Mae Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999 yn nodi gofynion ynglŷn â chyfleusterau mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion yn ymwneud â darparu lle addas ar gyfer cynnal archwiliadau meddygol, rhoi triniaeth i ddysgwyr a gofalu am ddysgwyr sy'n sâl neu wedi'u hanafu.

Hefyd, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Gall rhai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fod yn anabl at ddibenion y Ddeddf honno; efallai na fydd eraill. Mae nifer o ddyletswyddau amrywiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n berthnasol yng nghyd-destun dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd sydd hefyd yn anabl.

Ni ddylai corff llywodraethu ysgol wahaniaethu nac aflonyddu yn erbyn dysgwyr anabl na'u herlid, nac ychwaith, mewn rhai achosion, yn erbyn pobl benodol eraill. Mae'r corff â chyfrifoldeb hefyd yn amodol i ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (adran 85 Deddf Cydraddoldeb 2010).

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn llunio a gweithredu Strategaeth Hygyrchedd mewn perthynas â'r ysgolion rheini lle mae'r cyngor yn gorff cyfrifol. Pwrpas y strategaeth yw:

- cynyddu'r graddau y gall dysgwyr anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgolion
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion er mwyn cynyddu'r graddau y gall dysgwyr anabl fanteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion
- gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei darparu i ddysgwyr anabl, sydd ar gael yn hawdd i ddysgwyr nad ydynt yn anabl.

Rhaid i gorff Llywodraethu ysgol lunio a gweithredu Cynllun Hygyrchedd. Bydd cynnwys y cynllun hwn yr un fath â'r Strategaeth Hygyrchedd, ond bydd yn berthnasol i'r ysgol benodol. Mewn perthynas ag ysgol a gynhelir a meithrinfa a gynhelir, y corff â chyfrifoldeb yw'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu. Mewn perthynas ag Uned Cyfeirio Disgyblion, yr awdurdod lleol yw'r corff â chyfrifoldeb.

Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (e.e. ysgolion a gynhelir) yn amodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Golyga hyn ei bod yn ofynnol iddynt, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyladwy i faterion penodol yn ymwneud â chydraddoldeb. Mae ganddynt hefyd ddyletswyddau penodol at ddibenion galluogi gwell perfformiad o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (gweler Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 O.S.2011/1064).

Mae'r Cyngor a chyrff llywodraethu ysgolion hefyd yn amodol i'r dyletswyddau statudol mewn ymateb i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fel yr amlinellir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Mae darpariaethau perthnasol eraill yn cynnwys:

- Deddf Diogelu Data 1998
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971

# 3. Rolau a Chyfrifoldebau

### 3.1 Cyngor Sir y Fflint:

Bydd Portffolio Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau bod darpariaeth addysg ar gael i ddysgwyr, a bydd:

- yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae'r ddyletswydd hon yn rhagflaenorol. Er enghraifft, ni ddylai dysgwyr fod o dan anfantais pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd ac yn dechrau yn yr ysgol uwchradd. Mewn termau ymarferol, golyga hyn bod yn rhaid cynllunio a gweithredu addasiadau ymlaen llaw er mwyn atal unrhyw anfantais. Ni ddylai trafodaethau ynglŷn â'r cyfrifoldeb dros y ddarpariaeth gael effaith ar gyflenwi'r gwasanaeth, gan y gallai unrhyw oedi fod yn andwyol i addysg a llesiant y dysgwr.
- yn gwneud trefniadau i hybu cydweithio rhwng y gwahanol gyrff neu unigolion, gyda'r nod o wella, ymhlith pethau eraill, llesiant plant mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a chorfforol, eu haddysg, hyfforddiant a hamdden. Wrth wneud y trefniadau hyn bydd Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rhannu data.
- yn gwneud darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaethau cynghori i bobl ifanc 11–18 oed a dysgwyr Blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd. Yn yr ysgolion, dylai'r ddarpariaeth hon ategu'r gwahanol ddulliau sydd eisoes ar waith i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr.
- yn gweithio gyda lleoliadau addysg i sicrhau bod dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn derbyn addysg addas. Mewn sefyllfa lle na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oherwydd ei iechyd, mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas. Os yw dysgwr yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond dan 18 oed, gall yr awdurdod lleol wneud y trefniadau hyn.
- yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys cyngor ar sut i ddiwallu anghenion hyfforddiant staff lleoliadau addysg, er mwyn i gyrff llywodraethu sicrhau y gellir cyflenwi'r cymorth a nodir yn y cynlluniau gofal iechyd unigol (CGIU) yn effeithiol.

# 3. Rolau a Chyfrifoldebau

### 3.2 Cyrff llywodraethu

Bydd Cyrff Llywodraethu a Phwyllgorau Rheoli Sir y Fflint yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, a bydd y rhain yn cynnwys:

- cydymffurfio â dyletswyddau statudol cymwys, gan gynnwys y rheini o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (e.e. y ddyletswydd i wneud newidiadau rhesymol mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd os ydynt yn anabl, fel yr amlinellwyd uchod)
- cael dyletswydd statudol i hybu llesiant dysgwyr. Dylai ysgolion ystyried sut gallant ddiwallu'r anghenion hyn, gan gynnwys darparu mynediad i ddysgwyr at wybodaeth a deunydd sydd â'r nod o hybu llesiant ysbrydol a moesol ac iechyd meddwl a chorfforol (Erthygl 17 CCUHP)
- ystyried sut gallant gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth a chydnerthedd emosiynol sydd eu hangen i gynnal eu hawliau, a hawliau pobl eraill
- sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig yn y trefniadau i gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn glir a bod pawb yn eu deall, gan gynnwys unrhyw drefniadau priodol i ddirprwyo cyfrifoldebau neu dasgau i bennaeth, aelod staff neu weithiwr proffesiynol fel sy'n briodol
- cydweithio gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu trefniadau gofal iechyd a fydd yn sicrhau'r budd gorau i'r dysgwr
- datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys polisi ar anghenion gofal iechyd a lle bo'n briodol, Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar gyfer dysgwyr penodol
- sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu'r trefniadau anghenion gofal iechyd
- sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill fel iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, Deddf Diogelu Data 1998, mesurau diogelu a gweithdrefnau argyfwng
- sicrhau bod systemau cadarn yn eu lle ar gyfer ymdrin ag achosion brys o ran gofal iechyd a digwyddiadau critigol, ar gyfer gweithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys mynediad at feddyginiaeth frys fel mewnanadlwyr (inhalers) neu hunanchwistrellwyr adrenalin (pens)
- sicrhau bod staff sydd â chyfrifoldeb dros roi cymorth i ddysgwyr â gofynion gofal iechyd yn derbyn yr hyfforddiant priodol
- sicrhau bod trefniadau yswiriant priodol yn eu lle, bod cydymffurfiaeth ag unrhyw amodau a bod staff yn glir ynglŷn â beth mae hyn yn ei olygu iddynt os bydd gan y dysgwyr maent yn rhoi cymorth iddynt bolisi atal haint sy'n adlewyrchu'n llawn y gweithdrefnau a nodwyd yn y canllawiau cyfredol.

# 3. Rolau a Chyfrifoldebau

### 3.3 Penaethiaid

Bydd penaethiaid ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint yn sicrhau bod trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol a'u gweithredu'n effeithiol, gan gynnwys:

- gweithio gyda'u cyrff llywodraethol i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol cymwys wrth roi cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'u cynhwysir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol / Cynllun Hygyrchedd)
- sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn deall y trefniadau sydd yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr a'u bod yn dilyn y trefniadau hynny, ac yn dilyn y camau gweithredu. Dylai'r pennaeth oruchwylio'r trefniant hwn yn uniongyrchol fel rhan o'r trefniadau adrodd a goruchwylio arferol
- sicrhau bod y cymorth sy'n cael ei ddarparu yn canolbwyntio ar anghenion unigol y dysgwr ac yn diwallu'r anghenion rheini, hynny yw, cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- codi ymwybyddiaeth o anghenion gofal iechyd ar draws yr ysgol yn unol â hawl y dysgwr i breifatrwydd. Gall hyn gynnwys staff cymorth, arlwyo a chyflenwi, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr eraill
- penodi aelod staff a enwir i fod yn gyfrifol am ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, cysylltu â rhieni, dysgwyr, y gwasanaeth dysgu yn y cartref, Cyngor Sir y Fflint, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n gysylltiedig â gofal y dysgwr.
- sicrhau bod nifer digonol o staff hyfforddedig ar gael i weithredu'r trefniadau a nodir ym mhob Cynllun Gofal Iechyd Unigol, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd brys ac absenoldebau staff
- bod â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol
- sicrhau bod gan ddysgwyr amgylchedd ag urddas, addas i gyflawni eu hanghenion gofal iechyd, e.e. toiledau preifat ar gyfer cathetreiddio
- cysylltu â Chyngor Sir y Fflint i ganfod a oes trefniadau yswiriant addas yn eu lle ar gyfer cynnal gweithgareddau penodol i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd a rhoi gwybod i staff am unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas â chynnal gweithgareddau – cyfeiriwch at adran 13, Trefniadau Yswiriant, i gael manylion cyswllt.
- sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion gofal iechyd wedi'u cysylltu'n briodol â'r gwasanaeth cyngor iechyd i ysgolion
- pan fydd dysgwr yn cymryd rhan mewn lleoliad profiad gwaith neu sefyllfa debyg, sicrhau bod trefniadau cymorth gofal iechyd priodol wedi'u cytuno a'u rhoi ar waith
- darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithlonrwydd y trefniadau sydd yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr
- sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael ei eithrio o weithgareddau y byddai hawl ganddo fel arfer i gymryd rhan ynddynt heb reswm clir ar sail tystiolaeth, gan roi gwybod i Gyngor Sir y Fflint os yw dysgwr yn debygol o dreulio cyfnod sylweddol i ffwrdd o'r ysgol, e.e. tair wythnos (boed hynny dros un cyfnod o dair wythnos neu ar draws y flwyddyn academaidd) oherwydd ei anghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gyfnod o absenoldeb 'sylweddol' yn y cyfnod hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau a hefyd ar y graddau mae'r ysgol yn gallu darparu addysg addas ar gyfer y dysgwr. Gall cyfnodau o absenoldeb byrrach gael eu hystyried yn sylweddol yn dibynnu ar yr amgylchiadau
- ystyried Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ac yn sicrhau y darperir cymorth i ddysgwyr mewn ffordd holistaidd.

# 3. Roles and Responsibilities

### 3.4 Athrawon a Staff Cymorth a'r holl aelodau staff eraill (gall hyn gynnwys staff arlwyo a chontractwyr perthnasol)

Gellir gofyn i unrhyw aelod staff mewn ysgol neu Uned Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint i ddarparu cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio gweinyddu meddyginiaethau ar sail wirfoddol.

Er y gall hyn fod yn rhan o swyddogaeth rhai gweithwyr (e.e. cynorthwywyr dysgu) rhaid i aelodau staff dderbyn hyfforddiant digonol ac addas a chyrraedd y lefel cymhwysedd angenrheidiol cyn iddynt ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Yn ogystal â'r hyfforddiant a ddarperir i staff sydd wedi gwirfoddoli neu a gaiff eu contractio i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, bydd Penaethiaid yn sicrhau bod staff:

- yn deall yn llwyr holl bolisïau a threfniadau anghenion gofal iechyd yr ysgol
- yn ymwybodol pa ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig, a, lle bo'n briodol, yn gyfarwydd â Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol y dysgwyr hyn. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gyfathrebu gyda rhieni a pha amgylchiadau ddylai eu hysgogi i gysylltu â rhieni, er enghraifft, pan fydd y dysgwr yn sâl, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu'n gwrthod cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau oherwydd eu hanghenion gofal iechyd
- yn ymwybodol o'r arwyddion, symptomau a'r pethau sy'n ysgogi cyflyrau meddygol cyffredin sy'n peryglu bywyd ac yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys gwybod pwy yw'r swyddogion cymorth cyntaf a gofyn am eu cymorth os bydd achos meddygol brys.
- deall yn llwyr weithdrefnau argyfwng yr ysgol a bod yn barod i weithredu mewn argyfwng.
- gofyn am farn dysgwyr a rhieni a gwrando ar y farn honno, gan ei hystyried wrth wneud trefniadau cymorth
- sicrhau bod dysgwyr (neu eu ffrindiau) yn gwybod pwy ddylent ddweud wrthynt os byddant yn teimlo'n sâl, os oes arnynt angen cymorth neu unrhyw newidiadau i'r trefniadau cymorth
- gwrando ar bryderon dysgwyr os ydynt yn teimlo'n sâl unrhyw bryd ac ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn enwedig yn achos adroddiadau am anawsterau anadlu)
- sicrhau nad yw dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu heithrio o unrhyw weithgareddau maent yn dymuno cymryd rhan ynddynt heb reswm clir ar sail tystiolaeth, gan gynnwys unrhyw deithiau / ymweliadau allanol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar eu meddyginiaeth yn rhwydd a bod aelod staff sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol yn bresennol i roi cymorth lle bo'r angen
- yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â bwlio a llesiant emosiynol dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, a bod yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r ysgol
- yn deall y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu dysgwr i ddysgu a darparu cymorth ychwanegol lle bo'r angen i gefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn absennol a'u cynorthwyo i ddal i fyny â gwaith a gollwyd - gall hyn gynnwys gweithio gyda rhieni a gwasanaethau arbenigol
- rhoi gwybod i rieni am sut mae'r angen gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr yn yr ysgol. Gall hyn gynnwys adrodd am unrhyw ddirywiad, pryderon neu newidiadau i drefn arferol y dysgwr neu'r staff.

# 3. Roles and Responsibilities

### 3.5 Gweithio gydag Eraill: Gwasanaeth nyrsio iechyd ysgolion GIG Cymru, gweithwyr iechyd a staff proffesiynol eraill, mudiadau trydydd sector a gwasanaethau arbenigol eraill

Mae nifer o sefydliadau yn cynnig cymorth gofal iechyd a chymorth ymarferol. Gall ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ddefnyddio gwasanaeth cyngor iechyd a nyrs ysgol. Gall cwmpas a’r math o gymorth a gynigir gan y gwasanaeth gynnwys:

- cynnig cyngor ar ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol
- cynorthwyo i nodi’r hyfforddiant sydd ei angen ar y lleoliad addysg er mwyn gweithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn llwyddiannus
- cefnogi staff i weithredu Cynllun Gofal Iechyd Unigol dysgwr drwy dderbyn cyngor a chysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a’r trydydd sector.

Gall gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol fel meddygon teulu, paediatregwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegwyr a nyrsys diabetes/asthma arbenigol, hefyd ddarparu cyngor a chymorth gofal iechyd. Gall cyrff gwirfoddol y trydydd sector hefyd gynnig cyngor a chymorth ymarferol. Trwy gysylltu’n rhagweithiol gyda gwasanaethau arbenigol gellir darparu cymorth ymarferol wrth ysgrifennu a gweithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Gallant hefyd ddarparu hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys cysylltiadau fideo.

# 4. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

### 4.1 Cyflwyniad

Mae Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn nodi'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwr. Dylai cyrff llywodraethol ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion sicrhau bod eu Polisi Anghenion Gofal Iechyd yn cynnwys gwybodaeth am bwy sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu'r Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Mae Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn hanfodol pan fydd anghenion gofal iechyd yn gymhleth, yn newidiol, hirdymor neu pan fydd risg uchel y bydd yn rhaid ymyrryd mewn achos brys. Fodd bynnag, nid oes angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd a dylid cael proses ar waith i benderfynu pa ymyriadau sydd fwyaf priodol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig mewn perthynas â salwch tymor byr, er enghraifft pan roddir cwrs o wrthfiotigau, efallai na fydd angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol manwl. Mewn amgylchiadau o'r fath gall fod yn ddigonol i gofnodi enw'r feddyginiaeth, y dos, amser gweinyddu'r feddyginiaeth ac unrhyw sgil effeithiau posibl. Dylai'r dysgwr (lle bo'n briodol), y rhieni a'r ysgol / Uned Cyfeirio Disgyblion gadarnhau'r gweithdrefnau hyn yn ysgrifenedig ar y cyd.

Fodd bynnag, os bydd gan ddysgwr anghenion gofal iechyd parhaus neu ysbeidiol, yna efallai bydd angen llunio Cynllun Gofal Iechyd Unigol. Os yw'r anghenion hyn yn gymhleth ac mae'r dysgwr yn newid lleoliad, yna dylid dechrau paratoi'r cynllun yn fuan er mwyn sicrhau bod y Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn ei le ar ddechrau'r tymor newydd.

# 4. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

## 4.2 Rolau a Chyfrifoldebau wrth Lunio a Rheoli Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

Nid oes yn rhaid i Gynlluniau Gofal Iechyd Unigol fod yn gymhleth ond dylent esbonio sut gellir diwallu anghenion y dysgwr. Dylai Cynllun Gofal Iechyd Unigol fod ar gael i bawb sydd arnynt angen cyfeirio ato, gan gynnal y lefelau angenrheidiol o breifatrwydd ar yr un pryd. Dylai pob cynllun gynnwys yr wybodaeth a chamau gweithredu allweddol sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Gall y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol manwl gynnwys:

- y dysgwr
- y rhieni
- mewnbwn neu wybodaeth o'r lleoliad addysg blaenorol
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol
- y pennaeth a /neu unigolyn y dirprwywyd y cyfrifoldeb am anghenion gofal iechyd iddo/iddi ar draws y lleoliad
- athrawon a staff cymorth, gan gynnwys staff arlwyo
- unrhyw unigolion sydd â rolau perthnasol fel cydlynydd cymorth cyntaf, swyddog llesiant a chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY).

Dylid teilwra'r cynllun ar gyfer pob dysgwr unigol, ond gallai gynnwys:

- manylion yr angen gofal iechyd a disgrifiad o symptomau
- gofynion penodol fel gofynion dietegol, rhagofalon cyn unrhyw weithgaredd (e.e. cyn dosbarthiadau addysg gorfforol)
- gofynion o ran meddyginiaeth, e.e. dos, sgil effeithiau, gofynion o ran storio, trefniadau ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth
- datganiad effaith (wedi'i lunio ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro) yn nodi sut mae cyflwr gofal iechyd y dysgwr a/neu ei driniaeth yn effeithio ar ei ddysgu a pha gamau gweithredu sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hyn
- gweithdrefnau mewn argyfwng a manylion cyswllt
- y rôl y gall y lleoliad addysg ei chwarae, e.e. rhestr o bethau y dylid bod yn ymwybodol ohonynt, dyddiadau adolygu a'r pethau ddylai ysgogi adolygiad
- rolau staff penodol, e.e. pwynt cyswllt ar gyfer rhieni, staff sy'n gyfrifol am weinyddu /goruchwylio meddyginiaeth, a'r trefniadau ar gyfer cymryd lle'r staff rheini pan fyddant yn absennol
- materion yn ymwneud â chydsyniad/preifatrwydd/rhannu gwybodaeth sensitif
- anghenion hyfforddiant staff, megis mewn perthynas â gweinyddiaeth gofal iechyd, cymhorthion a thechnolegau ymaddasol
- cadw cofnodion - sut bydd hyn yn cael ei wneud, a pha wybodaeth a gaiff ei chyfathrebu i eraill
- cludiant o'r cartref i'r ysgol - cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hwn, a gall fod yn ddefnyddiol iddo wybod am Gynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr a'i gynnwys, yn enwedig mewn perthynas â sefyllfaoedd brys.

Nod y cynllun yw nodi'r camau sydd yn rhaid eu cymryd er mwyn helpu dysgwr i reoli ei gyflwr a goresgyn unrhyw rwystrau posibl i gymryd rhan yn llawn mewn addysg. Dylai'r rheini sy'n llunio'r cynllun gytuno pwy fydd yn arwain, ond y lleoliad addysg fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun yn cael ei gwblhau'n derfynol a'i weithredu. Mae nifer o fudiadau trydydd sector wedi llunio templedi Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol ar gyfer cyflyrau penodol y gellid eu defnyddio.

Dylai Cyrff Llywodraethu / Pwyllgorau Rheoli Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion sicrhau bod cynlluniau yn cael eu hadolygu yn flynyddol o leiaf neu'n amlach os bydd tystiolaeth newydd yn dangos bod anghenion y dysgwr wedi newid. Dylent gael eu datblygu gan roi ystyriaeth i les y dysgwr a dylid sicrhau bod y lleoliad addysg, gyda gwasanaethau arbenigol (os oes angen), yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a llesiant cymdeithasol y dysgwr.

Os oes gan ddysgwr anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dylai'r Cynllun Iechyd Unigol gael ei gysylltu ag unrhyw gynllun addysg unigol, Cynllun Datblygiad Unigol (CDU), Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu gynllun dysgu a sgiliau.

# 4. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

### 4.3 Cydlynu Gwybodaeth gyda Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, y Dysgwr a Rhieni

Mae'r ffordd y caiff anghenion gofal iechyd dysgwr eu rhannu â gweithwyr cymdeithasol a gofal iechyd proffesiynol yn dibynnu ar eu gofynion a'r math o leoliad addysg. Dylai'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol esbonio sut caiff gwybodaeth ei rhannu a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni a staff a byddai'n cysylltu ag asiantaethau allanol.

### 4.4 Cyfrinachedd

Mae'n bwysig bod staff perthnasol (gan gynnwys staff dros dro) yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i Gynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Bydd Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn debygol o gynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Rhaid i drefniadau rhannu a storio gwybodaeth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) o 25 Mai 2018.

### 4.5 Rôl y Dysgwr i Reoli ei Anghenion Gofal Iechyd ei Hun

Dylai dysgwyr sy'n gymwys i wneud hynny gael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaethau a'u gweithdrefnau. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yng Nghynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr. Lle bo'n bosibl, dylid caniatáu i ddysgwyr gario eu meddyginiaeth a'u dyfeisiau perthnasol eu hunain, neu sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar eu meddyginiaeth yn gyflym. Bydd angen lefel priodol o oruchwyliaeth ar rai dysgwyr.

Os bydd dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth neu gyflawni gweithdrefn angenrheidiol, ni ddylai staff eu gorfodi i wneud hynny, ond dylid dilyn trefniadau diffiniedig y lleoliad, a gytunwyd yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol. Dylid rhoi gwybod i rieni cyn gynted â phosibl er mwyn ystyried trefniant arall a dylid gofyn am gyngor iechyd lle bo'n briodol.

# 5. Creu Amgylchedd Hygyrch

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cynllunio ymlaen llaw i sicrhau bod ei ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn hygyrch i bobl ag anabledd drwy sicrhau:

- Bod Polisi Mynediad Ysgolion Sir y Fflint i ddisgyblion ag anabledd yr un fath â'r polisi mynediad ar gyfer disgyblion heb anabledd. Cyfeiriwch at y Canllaw i Wasanaethau Addysg 2022: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Admissions/Guide-to-Education-Services-2023.pdf
- Bod yr holl adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu i safon sy'n eu gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr ag anabledd.
- Bydd adeiladau presennol yn cael eu gwneud yn hygyrch ar gyfer disgyblion unigol ag anabledd, os yw'n rhesymol i wneud hynny, cyn iddynt gael eu derbyn i ysgol newydd (cyn belled y rhoddir rhybudd digonol i hyn fod yn realistig)
- Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio tuag at wneud adeiladau ysgolion yn hygyrch.
- Bydd disgyblion ag anableddau yn derbyn offer addas pan dderbynnir tystiolaeth a ddarperir gan Ffisiotherapydd neu Therapydd Galwedigaethol cymwysedig a ffurflen wedi ei llenwi a'i chydarwyddo gan reolwr y gwasanaeth
- Bod cwricwlwm addas yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion ag anabledd
- Bod disgyblion yn cael cymorth i gyfathrebu ag eraill drwy ystyried argymhellion Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWSSS) a'r Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith (GIG).

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio tuag at wneud adeiladau ysgolion yn hygyrch yn yr ystyr ehangach i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys yr agweddau a ganlyn:

### 5.1 Mynediad Ffisegol at Adeiladau Lleoliadau Addysg

Dyletswydd awdurdodau lleol yw llunio strategaeth hygyrchedd ysgrifenedig ar gyfer pob ysgol maent yn gyfrifol amdani o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid i bob strategaeth o'r fath fynd i'r afael â:

*'gwella amgylchedd ffisegol ysgolion gyda'r diben o gynyddu'r graddau y gall dysgwyr anabl fanteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion'* (Atodlen 10, Deddf Cydraddoldeb 2010 ).

Rhaid i'r strategaeth hon ymwneud â chyfnod a bennir, rhaid ymgynghori ar y strategaeth a rhaid iddi fod ar gael i'w harchwilio a'i chadw dan adolygiad. Yn yr un  modd, rhaid i ysgolion unigol gynnal cynllunio hygyrchedd ac mae ganddynt ddyletswydd i lunio cynllun hygyrchedd gan ddilyn yr un egwyddorion â'r strategaethau a luniwyd gan yr awdurdodau lleol. Bydd Strategaeth Hygyrchedd ddiwygiedig Cyngor Sir y Fflint ar gael ar-lein o fis Ionawr 2018.

# 5. Creu Amgylchedd Hygyrch

### 5.2 Addasiadau Rhesymol - cymhorthion neu wasanaethau ategol

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan sefydliadau dysgu ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' ar gyfer dysgwyr sy'n anabl fel y'i diffinnir gan y Ddeddf. Mae'n rhaid darparu cymhorthion neu wasanaethau (gyda'r nifer priodol o staff hyfforddedig) ar gyfer y dysgwyr hyn.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gosod cyfrifoldeb ar ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i brynu offer arbenigol ar gyfer dysgwyr os bydd yr eitem yn costio £100 neu lai. Os bydd y gost yn fwy na hyn, bydd yr asiantaethau perthnasol yn gwneud cyfraniadau ariannol sy'n gymesur â diben/defnydd o'r offer. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llunio cytundeb gwaith gyda'r Storfa Offer Cymunedol (NEWCES) a BIPBC i sicrhau bod offer arbenigol yn cael eu hailgylchu a'u hadnewyddu lle bo hynny'n briodol ac i'r graddau bod hynny'n bosibl.

### 5.3 Teithiau Dydd ac Ymweliadau Preswyl

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y lleoliad addysg yn rhoi pob cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau. Rhaid i gyrff llywodraethu fod yn ymwybodol o'u gofynion cyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol i deithiau ac ymweliadau preswyl er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan yn llawn.

Dylai staff mewn Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion fod yn ymwybodol o sut gall anghenion gofal iechyd dysgwr effeithio ar ei allu i gymryd rhan, a dylent geisio gwneud unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n helpu'r dysgwr i gymryd rhan. Dylai staff ystyried sut i rannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon os oes angen ar gyfer gweithgareddau a gynhelir oddi ar y safle (gan gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pharchu hawl y dysgwr i breifatrwydd). Gall hyn gynnwys gwybodaeth am anghenion gofal iechyd dysgwyr, beth ddylid ei wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth ychwanegol, meddyginiaeth neu offer sydd eu hangen.

Mae Gwasanaeth Addysg Awyr Agored Gogledd Cymru yn defnyddio system ar-lein Evolve ar gyfer rheoli risgiau yn ystod ymweliadau addysgol, a defnyddir y system gan ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://evolve.edufocus.co.uk/evco10/evchome_public.asp?domain=flintshirevisits.org

### 5.4 Rhyngweithio cymdeithasol

Dylai cyrff llywodraethu ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i gynnwys disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd yn ystod gweithgareddau cymdeithasol strwythuredig ac anstrwythuredig, megis yn ystod amser egwyl, y clwb brecwast, cynyrchiadau, clybiau ar ôl ysgol ac ymweliadau preswyl.

Dylai'r ysgol / Uned Cyfeirio Disgyblion sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r rhwystrau cymdeithasol sy'n gallu wynebu dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sut gall hyn arwain at fwlio ac allgau cymdeithasol. Dylid gweithredu mewn ffordd ragweithiol i ddileu unrhyw rwystrau.

# 5. Creu Amgylchedd Hygyrch

### 5.5 Ymarfer Corff a Gweithgarwch Corfforol

Dylai ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion ddeall yn llwyr pa mor bwysig yw hi i'r holl ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a dylai'r staff wneud addasiadau priodol i weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau eraill er mwyn eu gwneud yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a chwaraeon tîm.

Dylid sicrhau bod staff yr ysgolion a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gwbl ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr a'r ysgogiadau posibl. Dylent wybod sut i ymateb yn briodol a chyflym os byddant yn cael gwybod bod dysgwr yn teimlo'n sâl. Dylent bob amser ofyn am arweiniad wrth ystyried sut gallai cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau eraill effeithio ar ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd.

Dylid osgoi gwneud 'darpariaethau arbennig', ar wahân, ar gyfer gweithgareddau penodol, gan roi pwyslais yn hytrach ar weithgareddau sydd yn hygyrch i bawb. Yn yr achosion lle nad yw hyn yn bosibl, dylid gofyn am gyngor gweithwyr gofal iechyd neu addysg gorfforol proffesiynol a'r dysgwr. Gall hyn gynnwys Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru ar gyfer Sir y Fflint; i gael rhagor o wybodaeth ewch i: http://www.chwaraeonanableddcymru.com/flintshire/?force=2

Dylai staff hefyd ddeall y gall fod yn briodol i rai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gario eu meddyginiaeth neu fwyd gyda nhw pan fyddant yn gwneud gweithgarwch corfforol; dylid annog y dysgwyr hyn i gymryd eu meddyginiaeth neu fwyd yn ôl yr angen.

### 5.6 Rheoli Bwyd

Yn yr achosion lle caiff bwyd ei ddarparu drwy neu gan yr ysgol / Uned Cyfeirio Disgyblion, dylid rhoi ystyriaeth i anghenion dietegol dysgwyr, e.e. y rheini sydd â diabetes, cyflwr coeliag, alergeddau ac anoddefedd. Rhaid i arlwywr a ddewisir gan yr ysgolion ddarparu ar gyfer anghenion unigol dysgwyr yn unol â Pholisi Diet Meddygol Cynradd / Polisi Diet Meddygol Uwchradd yr ysgol ac mae'n gwneud hynny fel rhan o drafodaeth barhaus gydag ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion unigol, dysgwyr a rhieni.

Os bydd angen yn dod i'r amlwg, dylai lleoliadau addysg ddarparu bwydlenni ymlaen llaw i rieni a dysgwyr, yn cynnwys rhestrau llawn o'r cynhwysion a gwybodaeth am y cynnwys maethol. Rhaid dangos yn glir a oes glwten ac unrhyw anoddefedd neu alergenau eraill yn bresennol. Bydd darparu gwybodaeth o gymorth i hwyluso cydweithio rhwng rhieni a'r timau arlwyo. Mae hyn yn hynod o bwysig os oes angen cyfrif carbohydradau.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r mathau o fyrbrydau sydd ar gael. Dylai byrbrydau nad ydynt yn cynnwys siwgr a glwten fod ar gael bob amser. Gan fod rhai cyflyrau yn gofyn am gymryd llawer o galorïau, dylai bwyd a diod sydd yn cynnwys llawer o glwcos fod ar gael bob amser.

Dylai'r bwyd a ddarperir ar gyfer teithiau adlewyrchu anghenion dietegol a thriniaeth y dysgwyr sy'n cymryd rhan. Dylai bwyd a ddarperir fel byrbrydau yn yr ystafelloedd dosbarth hefyd ystyried anghenion dietegol a thriniaeth y dysgwyr hyn. Er y cydnabyddir bod polisïau 'Ysgolion Iach' a 'dim melysion' yn bwysig, efallai bydd angen i ddysgwyr sydd anghenion gofal iechyd gael eu heithrio o'r polisïau hyn. Ni ddylai dysgwyr sydd arnynt angen bwyta neu yfed oherwydd cyflwr iechyd gael eu heithrio o'r ystafell ddosbarth na'u cadw ar wahân.

# 5. Creu Amgylchedd Hygyrch

### 5.7 Asesiadau Risg

Dylai penaethiaid wybod yn iawn pa bryd mae asesiad risg yn ofynnol a bod yn ymwybodol o'r systemau asesu risg sydd yn eu lle. Dylent fod yn seiliedig ar gynsail o gynhwysiant a dylent gynnwys proses sy'n ceisio addasu neu gynnig gweithgareddau eraill yn hytrach na darparu gweithgareddau ar wahân.

# 6. Rhannu Gwybodaeth

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y trefniadau ar gyfer anghenion gofal iechyd, ym mholisïau ehangach yr ysgol a'r Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol, wedi'u cefnogi gan gyfathrebu clir gyda staff, rhieni a phrif randdeiliaid eraill er mwyn sicrhau y cânt eu gweithredu'n llawn. Mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth yn cael ei diweddaru. Cyn i unrhyw ddulliau rhannu gwybodaeth gael eu defnyddio, er enghraifft, hysbysfyrddau staff a mewnrwydi ysgolion, rhaid i'r dysgwr a'r rhieni gytuno i hyn ymlaen llaw er mwyn amddiffyn cyfrinachedd.

Bydd Cyngor Sir y Fflint, ysgolion ac Unedau Cyfeirio Ysgolion yn cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol ac yn gyfrinachol, gan gynnwys gyda'r bobl a ganlyn:

**6.1 Athrawon, athrawon llanw a staff cymorth (gall hyn gynnwys staff arlwyo a chontractwyr perthnasol)** bydd y rhain yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth berthnasol, yn enwedig os oes posibilrwydd y bydd sefyllfa argyfwng yn codi. Bydd y ffordd y caiff hyn ei wneud yn dibynnu ar y math o leoliad a'i faint a gall gynnwys:

- lle bo'n addas, ac yn dilyn derbyn cydsyniad priodol, hysbysfwrdd mewn ystafell staff a ddefnyddir i arddangos gwybodaeth am anghenion iechyd risg uchel, swyddogion cymorth cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau brys, ac ati. Dylid nodi nad yw pob aelod staff yn defnyddio'r ystafell staff, gall maint rhai lleoliadau addysg olygu nad yw'r dull hwn o rannu gwybodaeth yn ymarferol, ac y dylid bob amser ystyried hawl y dysgwr i breifatrwydd
- defnyddio ardal fewnrwyd ddiogel yr ysgol / Unedau Cyfeirio Disgyblion a chyfarfodydd staff er mwyn helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr neu'r rheini y gallant fod mewn cysylltiad â nhw.

**6.2 Rhieni a Dysgwyr -** dylai'r rhain fod yn bartneriaid gweithredol, ac i gyflawni hyn dylai'r lleoliad addysgol sicrhau bod rhieni yn hollol ymwybodol o'r gofal mae eu plant yn ei dderbyn. Dylai rhieni a dysgwyr hefyd gael gwybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Er mwyn helpu i gyflawni hyn dylai'r lleoliad addysgol:

- sicrhau ei fod yn hawdd cael gafael ar bolisïau anghenion gofal iechyd a'u bod yn hygyrch i bawb, ar-lein ac ar ffurf copi caled
- darparu copi o'r polisi rhannu gwybodaeth i'r dysgwr /rhieni. Dylai hwn nodi gyda pha fath o gyrff ac unigolion y gellid rhannu gwybodaeth feddygol am y dysgwr
- gofyn i rieni arwyddo ffurflen gydsynio sy'n nodi'n glir gyda pha gyrff ac unigolion y caiff gwybodaeth feddygol am y dysgwr ei rhannu a'r dulliau o wneud hynny. Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater sensitif a dylai'r dysgwr gael ei gynnwys mewn unrhyw benderfyniadau. Dylai lleoliadau addysg gadw rhestr yn nodi pa wybodaeth a rannwyd gyda phwy a pham, er mwyn i'r dysgwr /rhiant ei gweld os yw'n dymuno gwneud hynny
- ystyried cynnwys cyswllt gwe at bolisïau anghenion gofal iechyd wrth gysylltu â rhieni, ac yng Nghynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr
- cynnwys cynghorau myfyrwyr, 'ysgolion iach' a grwpiau dysgwyr eraill wrth ddatblygu trefniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad, lle bo hynny'n briodol
- ystyried sut gall grwpiau o ffrindiau a chyfoedion fod o gymorth i helpu dysgwyr, e.e. gellid eu dysgu sut i adnabod arwyddion neu'r pethau sy'n ysgogi problemau i'r dysgwr, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac wrth bwy y dylid gofyn am gymorth. Dylai'r lleoliad addysg drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni yn gyntaf a phenderfynu a ellir rhannu gwybodaeth.

# 6. Rhannu Gwybodaeth

### 6.3 Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Mae gan Gyngor Sir y Fflint Brotocol rhannu gwybodaeth ar waith sy'n ymdrin â rhannu gwybodaeth yn gysylltiedig ag iechyd o fewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

# 7. Gweithdrefnau a Chadw Cofnodion ar gyfer Rheoli Anghenion Gofal Iechyd Dysgwyr

Bydd Ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig yn y gwaith o adnabod, rheoli a gweinyddu anghenion gofal iechyd.

Wrth weinyddu meddyginiaethau, rhaid cofnodi hynny ar y ffurflenni priodol. Dylid casglu a chynnal y dogfennau a ganlyn, lle bo hynny'n briodol.

1. Manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaethau brys
2. Cytundeb rhieni i'r lleoliad addysgol weinyddu meddyginiaeth
3. Cytundeb pennaeth y lleoliad addysgol i weinyddu meddyginiaeth
4. Cofnod o'r feddyginiaeth a gaiff ei storio a'i gweinyddu i ddysgwr unigol
5. Cofnod o'r meddyginiaethau a weinyddir i bob dysgwr a'r dyddiad
6. Cais i ddysgwr weinyddu ei feddyginiaeth ei hun
7. Cofnod hyfforddiant staff – gweinyddu meddyginiaethau
8. Adroddiad digwyddiad meddyginiaeth

Os bydd dysgwr yn gwrthod ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau a ddiffiniwyd lle byddir yn rhoi gwybod i rieni am y methiant hwn i gydymffurfio â'r drefn cyn gynted â phosibl.

Dylid llunio cofnodion newydd pan fydd unrhyw newidiadau i'r feddyginiaeth neu ddos. Dylai'r lleoliad dysgu sicrhau bod yr hen ffurflenni wedi'u marcio'n glir fel rhai nad ydynt yn berthnasol bellach a'u storio yn unol â'r polisi cadw gwybodaeth.

Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau lle mae cofnodion anghenion gofal iechyd y dysgwr wedi'u gosod ar system gyfrifiadurol gan olygu bod modd i staff priodol gael atynt yn gyflym a hawdd. Gall systemau data hefyd ei gwneud yn hawdd i staff sy'n cael eu rhoi mewn ystafelloedd dosbarth lle nad ydynt yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y dysgwyr, gael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen yn hawdd. Rhaid i weithrediad systemau o'r fath gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

# 8. Storio, Mynediad a Gweinyddu Meddyginiaeth a Dyfeisiau

Dylai cyrff llywodraethu ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint sicrhau bod eu polisi yn glir mewn perthynas â'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau. Bydd gweithdrefnau storio, mynediad a gweinyddu bob amser yn addas i gyd-destun y lleoliad addysg ac anghenion y dysgwr. Fodd bynnag, dylid adlewyrchu'r egwyddorion cyffredinol a ganlyn.

### 8.1 Cyflenwad o Feddyginiaeth neu Ddyfeisiau

Ni ddylai Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion gadw meddyginiaeth dros ben. Dylid gofyn i rieni ddarparu cyflenwadau addas o feddyginiaeth. Dylai'r rhain fod yn eu cynhwysydd gwreiddiol, wedi'u labelu ag enw'r dysgwr, enw'r feddyginiaeth, dos ac amlder y ddos, a'r dyddiad y daw'r feddyginiaeth i ben. Dylai lleoliadau addysg dderbyn meddyginiaethau a dyfeisiau ar bresgripsiwn sydd yn bodloni'r meini prawf isod yn unig:

- rhaid iddynt fod o fewn y dyddiad a nodir
- mae'r cynnwys wedi'i nodi'n glir a'i labelu'n glir
- maent wedi'u labelu ag enw'r dysgwr
- maent yn cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig o ran y trefniadau gweinyddu a storio a'r ddos
- maent yn eu cynhwysydd /deunydd pecynnu gwreiddiol fel y'u gweinyddwyd gan y fferyllydd (ac eithrio inswlin sydd fel arfer ar gael mewn pen neu bwmp inswlin).

Os bydd y lleoliad addysgol yn cadw meddyginiaethau nad ydynt ar bresgripsiwn, e.e. paracetamol hylifol, dylent fodloni'r meini prawf isod:

- rhaid iddynt fod o fewn y dyddiad a nodir
- rhaid i'r cynnwys gael ei nodi a'i labelu'n glir a chywir
- rhaid iddynt gael eu labelu ag enw'r dysgwr
- rhaid iddynt gynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig o ran y trefniadau gweinyddu a storio, a'r ddos – gall y rhiant ddarparu'r rhain
- rhaid iddynt fod yn eu cynhwysydd /deunydd pecynnu gwreiddiol.

### 8.2 Storio, mynediad a gwaredu

Dylid storio pob meddyginiaeth yn ddiogel, ond bydd y math o feddyginiaeth a'r defnydd a wneir ohoni yn penderfynu sut byddir yn gwneud hyn. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gwybod lle caiff eu meddyginiaeth ei storio a sut i gael at y feddyginiaeth honno.

### 8.3 Cyfleusterau oergell

Mae'n rhaid cadw rhai meddyginiaethau mewn oergelloedd. Bydd angen monitro tymheredd yr oergell yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion storio. Gellir cadw meddyginiaethau mewn oergell sy'n cynnwys bwyd, ond dylent fod mewn cynhwysydd aerglos ac wedi'u labelu'n glir. Dylid ystyried oergell feddygol y gellir ei chloi os oes angen storio nifer fawr o feddyginiaethau.

# 8. Storio, Mynediad a Gweinyddu Meddyginiaeth a Dyfeisiau

### 8.4 Meddyginiaethau Brys

Rhaid i feddyginiaethau brys fod ar gael yn hwylus bob amser i ddysgwyr sydd arnynt eu hangen yn ystod y diwrnod neu yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle. Dylai meddyginiaethau a dyfeisiau fel mewnanadlwyr asthma, mesuryddion profi lefel glwcos y gwaed a dyfeisiau hunanchwistrellu adrenalin (pens) fod ar gael bob amser i ddysgwyr ac ni ddylid eu cadw dan glo.

Mae'n bwysig iawn ystyried hyn wrth adael safle'r ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion, e.e. ar deithiau. Os yw'r meddyginiaethau brys yn gyffuriau dan reolaeth dylid eu cadw mor ddiogel â phosibl er mwyn lleihau unrhyw risg y bydd pobl heb awdurdod yn cael gafael arnynt, ond ar yr un pryd dylid sicrhau bod modd cael gafael ar y meddyginiaethau yn gyflym os oes eu hangen mewn achos brys. Er enghraifft, ni ddylai aelod staff gario allweddi gydag ef/hi.

Yn gyfreithiol, mae hawl gan ddysgwr sy'n derbyn cyffur dan reolaeth ar bresgripsiwn gario'r cyffur hwnnw gydag ef/hi, os yw'n gymwys i wneud hynny, ac ni ddylai ei roi i ddysgwr arall nac unrhyw bobl eraill heb awdurdod. Efallai bydd yn rhaid monitro hyn. Pan fydd staff yn gweinyddu meddyginiaeth frys i ddysgwr, dylid cofnodi hyn.

### 8.5 Meddyginiaethau nad ydynt yn rhai brys

Dylid cadw pob meddyginiaethau nad ydynt yn rhai brys mewn lle diogel lle ceir tymheredd priodol neu reolyddion golau. Os yw'r meddyginiaethau yn gyffuriau dan reolaeth, cynghorir defnyddio mesurau a rheoliadau diogelwch ychwanegol..

### 8.6 Gwaredu meddyginiaethau

Pan nad oes eu hangen mwyach, dylid dychwelyd meddyginiaethau i'r rhieni er mwyn iddynt drefnu i'w gwaredu'n ddiogel. Rhaid defnyddio blychau ar gyfer offer miniog bob amser i waredu nodwyddau ac offer miniog eraill, a'u gwaredu yn y ffordd briodol.

# 8. Storio, Mynediad a Gweinyddu Meddyginiaeth a Dyfeisiau

## 8.7 Gweinyddu Meddyginiaethau

- Os yw'r dysgwr dan 16 oed, mae'n rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig y rhieni i roi cymorth neu weinyddu meddyginiaethau ar bresgripsiwn a meddyginiaethau heb bresgripsiwn, oni bai y cofnodir cymhwysedd Gillick. Dylid cofnodi pob achos o weinyddu meddyginiaethau.
- Os caiff meddyginiaeth ei rhagnodi i'w chymryd ar adegau sy'n caniatáu i'r cwrs dyddiol o feddyginiaeth gael ei weinyddu yn y cartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny, e.e. cyn ac ar ôl yr ysgol a gyda'r nos. Bydd achosion lle na fydd hyn yn briodol.
- Ni ddylid byth rhoi aspirin i ddysgwyr dan 16 oed nac unrhyw ddeilliad o aspirin oni bai y caiff ei roi ar bresgripsiwn iddynt.
- Oni bai fod cynllun wedi ei gytuno i'r dysgwr hunan-weinyddu ei feddyginiaeth (16 oed a throsodd neu'n bodloni cymhwysedd Gillick), dylai aelod staff weinyddu pob meddyginiaeth. Mewn achosion eraill, efallai bydd yn rhaid goruchwylio hyn yn unol â'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol.
- Dim ond aelodau staff sydd wedi derbyn hyfforddiant addas ddylai weinyddu meddyginiaeth. Dylai symudiadau a lleoliad yr aelodau staff hyfforddedig hyn bob amser gyd-fynd â'r dysgwyr maent yn rhoi cymorth iddynt.
- Dylai staff wirio uchafswm y ddos a maint ac amser unrhyw ddos blaenorol a weinyddwyd.
- Efallai bydd angen i oedolyn o'r un rhyw â'r dysgwr fod yn gyfrifol am gyflawni rhai gweithdrefnau meddygol, ac efallai bydd angen ail oedolyn fel tyst. Rhaid ystyried meddyliau a theimladau'r dysgwr o ran nifer a rhyw'r rhai sy'n rhoi cymorth i ddarparu gofal personol. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i fwy nag un roi cymorth. Dylid cytuno ar hyn ac adlewyrchu'r penderfyniad yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol ac asesiad risg.
- Dylai Ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion gael polisi gofal personol. Dylid dilyn y polisi hwn, oni bai bod trefniadau eraill wedi'u cytuno a'u cofnodi yng Nghynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr.
- Os bydd dysgwr yn gwrthod ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn eu gweithdrefnau diffiniedig gan roi gwybod i'r rhieni cyn gynted â phosibl. Os bydd dysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth, dylid rhoi gwybod i'w rieni cyn gynted â phosibl. Dylai'r lleoliad addysg ofyn i'r rhieni geisio cyngor ar ofal iechyd cyn gynted â phosibl. Os na ellir cysylltu â'r rhieni ar unwaith, bydd angen i staff ystyried gofyn am gyngor gofal iechyd ar unwaith.
- Dylai staff sy'n gysylltiedig â gweinyddu meddyginiaethau fod yn gyfarwydd â'r ffordd mae dysgwyr yn cydsynio i driniaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth ar y mater hwn yn y Ganllaw i Gydsyniad i Archwiliad neu Driniaeth - Canllawiau Diwygiedig (Gorffennaf 2017).
- Dylid sicrhau bod pob aelod staff sy'n rhoi cymorth ar ymweliadau oddi ar y safle yn gwybod pwy yw'r dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylent dderbyn yr wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod staff yn gallu hwyluso profiad cyfartal i'r dysgwr. Gall yr wybodaeth hon gynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth ychwanegol angenrheidiol arall sydd ei angen ar y dysgwr, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer.

# 9. Gweithdrefnau Brys

Dylai cyrff llywodraethu /Pwyllgorau Rheoli Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint sicrhau bod polisi yn ei le ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd brys. Dylai staff wybod pwy sy'n gyfrifol am y polisi, pwy yw'r swyddogion cymorth cyntaf enwebedig a sut i ymdrin ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd sy'n gofyn am gymorth brys, dylid ffonio 999 ar unwaith. Dylai staff wybod lle mae cofnodion gofal iechyd a manylion cyswllt brys y dysgwyr yn cael eu cadw.

Os bydd gan ddysgwr Gynllun Gofal Iechyd Unigol, dylai hwn ddiffinio'n glir beth yw achos brys ac esbonio beth ddylid ei wneud. Dylid rhoi gwybod i staff am symptomau a gweithdrefnau brys.

Dylai dysgwyr eraill yn yr ysgol / Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd wybod beth i'w wneud yn gyffredinol mewn achos brys, fel rhoi gwybod i aelod staff ar unwaith. Os bydd yn rhaid mynd â dysgwr i'r ysbyty, dylai aelod staff aros gyda'r dysgwr nes bydd rhiant yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys mynd gyda nhw yn yr ambiwlans i'r ysbyty. Dylai'r aelod staff gael manylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth.

Cyfeiriwch at Ganllaw Ysgolion Sir y Fflint i Reoli Achosion Brys ar y Safle ac Oddi ar y Safle diweddarwyd yn Nhachwedd 2020 i gael rhagor o wybodaeth.

# 10. Hyfforddiant

Rhaid i gyrff llywodraethu Ysgolion / Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Sir y Fflint sicrhau y darperir hyfforddiant priodol i staff sy'n gwirfoddoli neu sy'n cael eu contractio i roi cymorth i'r rheini sydd ag anghenion gofal iechyd. Bydd penaethiaid yn sicrhau y cedwir cofnodion o'r holl hyfforddiant a wneir gan staff gan gynnwys y manylion a ganlyn: dyddiad ac enw'r hyfforddiant, hyfforddwr, staff a wnaeth fynychu ac unrhyw dystysgrifau. Rhaid diweddaru pob hyfforddiant.

Wrth roi cymorth i ddysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd, dylid cydnabod nad oes angen hyfforddiant arbenigol ar gyfer sawl math o ymyrraeth ac mai rôl y staff yw hwyluso'r dysgwr i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd ei hun.

Gall Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff gael gwybodaeth a hyfforddiant penodol. Gall yr hyfforddiant hwn hefyd ymwneud â'r defnydd o gymhorthion fel teclynnau clyw (gellid dangos i staff sut i newid batris) a gwahanol dechnolegau addasol. Os cafodd y rhain eu hysgogi gan weithwyr iechyd proffesiynol, gellir gofyn iddynt ddarparu cyngor addas ar gyfer lleoliadau addysg yn ogystal â dysgwyr a theuluoedd.

Dylai'r hyfforddiant a ddarperir fod yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gymwys, bod ganddynt hyder yn eu gallu i roi cymorth i ddysgwyr a diwallu gofynion Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Mae'n hanfodol bod yr hyfforddiant yn cynnwys mewnbwn gan y dysgwr a'r rheini, sydd yn aml yn chwarae rhan fawr wrth ddarparu gwybodaeth ar sut gellir diwallu anghenion. Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu'n llwyr ar rieni i ddarparu hyfforddiant am anghenion gofal iechyd eu plentyn.

Os oes gan ddysgwr anghenion cymhleth, efallai bydd angen mewnbwn gan wasanaethau gofal iechyd a'r awdurdod lleol a fydd yn gallu rhoi cyngor a chyfeirio at hyfforddiant a chymorth pellach.

Gall pob aelod staff, ni waeth a ydynt wedi gwirfoddoli i roi cymorth neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd neu beidio, ddod i gysylltiad â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Cynghorir felly bod gan holl staff ddealltwriaeth sylfaenol o gyflyrau cyffredin er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod symptomau ac yn deall ble dylid gofyn am gymorth priodol.

Dylid rhoi gwybod i staff newydd a staff dros dro yn enwedig pa fesurau ataliol a brys sydd yn eu lle er mwyn i staff adnabod yr angen am ymyrraeth ac ymateb yn gyflym.

Os nad yw'r staff hyfforddedig sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael, dylai'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol nodi trefniadau eraill. Dylid rhoi sylw i hyn hefyd mewn asesiadau risg ac wrth gynllunio gweithgareddau oddi ar y safle.

# 11. Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Dylid adnabod anghenion addysgol pob dysgwr nad yw'n gallu mynychu'r ysgol oherwydd ei anghenion gofal iechyd, a dylai dderbyn cymorth addysgol yn gyflym er mwyn iddo barhau i dderbyn addysg addas.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyletswydd (o dan Ddeddf Addysg 1996) i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas i bob plentyn ac unigolyn ifanc o oedran ysgol gorfodol. Dylid adnabod anghenion addysgol dysgwr nad yw'n gallu mynychu ei leoliad addysg oherwydd ei anghenion gofal iechyd, a dylai gael cymorth addysgol yn gyflym er mwyn iddo barhau i gael addysg addas. Golyga hyn addysg sy'n addas i oedran, gallu ac addasrwydd y dysgwr ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd ganddo o bosibl. Dylai natur y ddarpariaeth fod yn ymatebol, gan adlewyrchu anghenion statws iechyd a all fod yn newidiol.

Yn achos absenoldeb byr (sy'n debygol o bara am lai na 15 diwrnod ysgol) bydd yr ysgol yn darparu gwaith i'w gwblhau yn y cartref, os yw cyflwr y dysgwr yn caniatáu hynny, ac yn rhoi cymorth i'r dysgwr ddal i fyny pan fydd yn dychwelyd.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwneud trefniadau ar gyfer dysgwyr mewn achosion lle mae'n amlwg bod y dysgwr yn debygol o fod yn absennol o'r ysgol am gyfnod sylweddol, e.e. mwy na 15 diwrnod ysgol, boed y rheini yn olynol neu ar draws blwyddyn academaidd. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn darparu cynifer o wersi ag y bydd cyflwr y dysgwr yn ei ganiatáu, ac sy'n fuddiol, gan roi ystyriaeth i'r hyn sy'n addas ar gyfer y dysgwr. Rhoddir ystyriaeth i ddysgwr sydd ar gwrs sy'n arwain at gymwysterau.

Os bydd absenoldebau wedi'u rhagweld neu os byddir yn gwybod amdanynt ymlaen llaw, dylai cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol ei wneud yn bosibl i alluogi'r gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol o ddechrau'r absenoldeb.

Efallai bydd dysgwyr ag anghenion gofal iechyd cymhleth yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal ysgrifenedig. Yn yr achos hwn, dylid ymgorffori'r cynllun gofal ysgrifenedig mewn unrhyw Gynllun Gofal Iechyd Unigol.

Mae Polisi Addysg Heblaw yn yr Ysgol Cyngor Sir y Fflint ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cynnwys trefniadau ar gyfer y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei staffio, amseriad y ddarpariaeth, ac unigolyn a enwir y dylai rhieni, yr ysbyty, athrawon ac eraill gysylltu ag ef/hi.

# 12. Cludiant Ysgol

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir y Fflint benderfynu a yw'n angenrheidiol darparu cludiant i ddisgyblion o oed ysgol statudol er mwyn eu galluogi i fynychu ysgol ddynodedig ar gyfer y disgybl dan sylw. Os penderfynir bod cludiant o'r fath yn angenrheidiol, yna rhaid darparu'r cludiant am ddim.

Darpariaeth Cludiant Statudol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol (h.y. 5-16 oed) fel a ganlyn:

- os yw'r plentyn yn derbyn addysg gynradd ac yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf;
- os yw'r plentyn yn derbyn addysg uwchradd ac yn byw dros dair milltir o'r ysgol addas agosaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol:

- os yw'r Awdurdod Lleol mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, o'r farn bod y llwybr i'r ysgol yn beryglus;
- os yw cludiant i ysgol a enwir yn cael ei nodi yn Natganiad o Addysg Anghenion Arbennig/Cynllun Datblygiad Unigol y disgybl. Fel arfer byddai hyn ar sail feddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf eraill a nodwyd yn y Polisi Cludiant
- os oes angen cludiant ar blentyn ar sail feddygol ac nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael.

I gael manylion llawn am y polisi ewch i:

http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf

# 13. Trefniadau Yswiriant

Dylai Cyrff Llywodraethu / Pwyllgorau Rheoli lleoliadau addysg a gynhelir yn Sir y Fflint sicrhau bod lefel priodol o yswiriant yn ei le ar gyfer gweithgareddau'r lleoliad wrth roi cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Bydd y pecyn Yswiriant a brynir drwy Dîm Risg ac Yswiriant Cyngor Sir y Fflint yn darparu yswiriant addas ar gyfer gweithgareddau ysgol safonol. Efallai bydd angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, e.e. gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddog Yswiriant ar (01352) 702242.

# 14. Cwynion

Nid oes gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb statudol i ddatrys cwynion am ysgol gan mai'r Corff Llywodraethu sydd â'r cyfrifoldeb statudol hwnnw. Mae'r weithdrefn isod yn amlinellu sut gall rhieni / gofalwyr gyflwyno cwyn i ysgol eu plentyn yn Sir y Fflint. Os oes gan riant / gofalwr anhawster gydag ysgol, dylent geisio datrys y mater drwy gael trafodaeth anffurfiol gyda'r aelod staff perthnasol. Os na ellir datrys y mater yn anffurfiol, bydd gan yr ysgol drefn gwynion ffurfiol y gellir ei dilyn.

**Cam A:** Codi'r mater gyda'r athro (neu unigolyn yn yr ysgol) cyn pen 10 diwrnod ysgol.

Mater heb ei ddatrys:

**Cam B:** Ysgrifennu at y pennaeth (neu unigolyn dynodedig) cyn pen 5 diwrnod ysgol. (Os yw'r gŵyn yn ymwneud â'r pennaeth – symud ymlaen at Gam C). Gellir cysylltu â swyddfa'r ysgol i drefnu cyfarfod neu gael sgwrs ffôn gyda'r pennaeth. Bydd y pennaeth / unigolyn dynodedig yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn cysylltu â'r rhiant i nodi'r canlyniad cyn pen 10 diwrnod ysgol i'r dyddiad y gwnaeth yr ysgol dderbyn llythyr y rhiant.

Cwyn heb ei datrys:

**Cam C:** Dylai'r rhiant / gofalwr gyflwyno cwyn i Gorff Llywodraethu'r ysgol cyn pen 5 diwrnod ysgol. Dylai'r rhiant / gofalwr sicrhau bod y gŵyn i'r Corff Llywodraethu yn ysgrifenedig ac wedi'i chyfeirio at Gadeirydd y Llywodraethwyr yng nghyfeiriad yr ysgol. Os yw'r gŵyn yn ymwneud â Chadeirydd y Llywodraethwyr, dylai'r llythyr gael ei gyfeirio at Is-gadeirydd y Llywodraethwyr. Bydd y rhiant yn cael gwybod y canlyniad cyn pen 10 diwrnod ysgol.

Mae'r holl amserlenni a thargedau yn hyblyg, fodd bynnag, mae o fudd i bawb i ddatrys cwyn cyn gynted â phosibl. Bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r rhiant /gofalwr i sicrhau bod yr amser a ganiateir i ddelio â'r mater neu gŵyn yn rhesymol ac yn helpu i gael ateb i'r broblem.

Beth os nad yw'r rhiant/gofalwr yn teimlo nad yw'r gŵyn wedi ei datrys:

Dim ond ar ôl dilyn y camau uchod, camau 1-3, ac os yw'r rhiant / gofalwr o'r farn bod Corff Llywodraethu'r ysgol wedi gweithredu'n 'afresymol', gall y rhiant /gofalwr gymryd y camau isod, ond dim ond os yw pob ymdrech arall wedi methu:

- ysgrifennu at y Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid
- ffonio'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01352 703020
- anfon e-bost at: customerservices@flintshire.gov.uk

Mae'n rhaid ymdrin â rhai materion y tu allan i drefn gwynion ffurfiol yr ysgolion:

- Derbyn i ysgol neu wahardd o ysgol
- Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Cynlluniau Datblygiad Unigol (CDU) Awdurdod Lleol

Os yw cwyn y rhiant yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion uchod, gall:

- ffonio'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01352 703020
- anfon e-bost at: customerservices@flintshire.gov.uk
- Cysylltu â'r swyddog a enwyd ar gyfer y Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig/CDU Awdurdod Lleol
- Uwch Ymgyghorydd Dysgu – Ymgysylltiad (Gwaharddiadau/EOTAS)

# 15. Arfer Annerbyniol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn nodi nad yw'n arfer derbyniol i:

- atal dysgwyr rhag mynychu lleoliad addysg oherwydd eu gofynion gofal iechyd, oni bai y byddai'r ffaith eu bod yn mynychu'r lleoliad yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu eraill
- atal dysgwyr rhag cael gafael ar eu mewnanadlwyr neu feddyginiaeth arall, a'u hatal rhag cymryd eu meddyginiaeth pan a lle bo'r angen
- rhagdybio bod angen yr un driniaeth ar bob dysgwr sydd â'r un cyflwr
- anwybyddu barn y dysgwr neu ei rieni, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd (er y gellir cwestiynu'r farn hon gan ofyn am farn ychwanegol cyn gynted â phosibl)
- anfon dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd adref yn aml neu eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai fod hyn wedi'i nodi'n benodol yn eu Cynllun Gofal Iechyd Unigol
- anfon dysgwr sy'n cael ei daro'n wael neu sydd arno angen cymorth i ystafell feddygol neu brif swyddfa ar ei ben ei hun neu gyda rhywun nad yw'n gallu ei fonitro'n gywir
- cosbi dysgwr am ei record presenoldeb os yw'r absenoldeb yn gysylltiedig â'i anghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio 'absenoldebau awdurdodedig' gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser teithio i'r ysbyty neu apwyntiad, ac amser ymadfer yn dilyn triniaeth neu salwch i gosbi dysgwr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gymryd rhan mewn gweithgareddau, teithiau neu wobrau sydd yn cael eu cymell gan record presenoldeb
- gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwr yn ddiweddarach. Dylid gwneud cais am y rhain mewn da bryd. Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i addasiadau neu amser ychwanegol sydd eu hangen mewn ffug arholiadau neu brofion eraill
- atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu fynd i'r toiled neu gael unrhyw egwyl arall pryd bynnag y bydd eu hangen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol
- ei gwneud yn ofynnol i rieni, neu wneud iddynt deimlo bod rhwymedigaeth arnynt, i fynychu'r lleoliad addysg, taith neu unrhyw weithgaredd arall oddi ar y safle er mwyn gweinyddu meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys materion yn ymwneud â mynd i'r toiled
- disgwyl neu achosi rhiant i roi'r gorau i'w waith neu ymrwymiadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu â chefnogi anghenion gofal iechyd y dysgwr
- gofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu weithgaredd os oes arno angen gweinyddu meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu fwyta bwyd yn unol â'i anghenion iechyd
- atal neu greu rhwystrau diangen sy'n golygu na all dysgwr gymryd rhan mewn unrhyw agwedd ar ei addysg, gan gynnwys teithiau, e.e. drwy ei wneud yn ofynnol i'r rhiant ddod gyda'r dysgwr.
- Caiff arferion annerbyniol eu rheoli gan Bolisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban, Cwynion a Galluoedd Cyngor Sir y Fflint.

# 16. Adolygu polisïau, Trefniadau a Gweithdrefnau

Bydd Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion Sir y Fflint yn adolygu eu Polisi Anghenion Gofal Iechyd a Gofal Personol bob 3 mlynedd neu yn gynt os bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, neu o ystyried newidiadau mewn arfer gwaith. Gall fod yn ofynnol i Ddarparwyr Gofal Annibynnol gynnal adolygiadau aml yn dibynnu ar yr angen gofal iechyd - dylai hyn gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, y dysgwr, rhieni, gweithwyr proffesiynol ym maes Addysg ac Iechyd a chyrff perthnasol eraill.

Adolygir polisi Anghenion Gofal Iechyd y Cyngor bob 3 mlynedd gan Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth (TRhG) mewn ymgynghoriad gyda Ffederasiynau'r penaethiaid cynradd ac uwchradd.

**Datganiad:** Cymeradwywyd y polisi hwn gan: Y Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid ar:



**Arwyddwyd:** Claire Homard

**Dyddiad:** 06.12.22